# Adalimumab, etanercept ac ustekinumab ar gyfer trin soriasis plac mewn plant a phobl ifanc

14 Gorffennaf 2017

Mae adalimumab (Humira), etanercept (Enbrel) ac ustekinumab (Stelara) i gyd ar gael ar y GIG fel triniaethau posibl ar gyfer soriasis plac. Mae adalimumab ar gyfer plant a phobl ifanc dros 4 oed, mae etanercept ar gyfer y rheini sydd dros 6 oed ac ustekinumab ar gyfer y rheini sydd dros 12 oed. Mae'r rhain ond ar gael ar gyfer soriasis os yw'r canlynol yn gymwys:

- os yw eu cyflwr yn ddifrifol ac
- os nad yw eu cyflwr wedi gwella gyda thriniaethau eraill, er enghraifft ciclosporin, methotrexate neu ffototherapi, neu na ellir defnyddio'r rhain.

Os nad yw'r soriasis yn gwella ddigon, dylid rhoi'r gorau i driniaeth gydag etanercept ar ôl 12 wythnos a gydag adalimumab ac ustekinumab ar ôl 16 wythnos.

Os nad ydych chi (neu eich plentyn) yn gymwys i gael adalimumab, etanercept neu ustekinumab, ond rydych eisoes yn cymryd un ohonynt, dylech chi (neu eich plentyn) allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Croen Prydain, 0207 391 6347
- Y Gymdeithas Soriasis, 0160 425 1620
- Psoriasis and Psoriatic Arthritis Alliance, 0192 367 2837
- Sefydliad Cymorth Soriasis

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2587-2

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights